

# Maer 2007-2008

## Y Cyngorydd Allan Jones

Mae'r Cyn Maer y Cyngorydd Allan Jones ( a adweinir yn annwyl Salty) 2007/08 yn cynrychioli Ward Penydarren ac yn uchel iawn ei barch o fewn ei etholaeth ac yn wir ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.

Ganwyd Allan yn Ysbyty Gwaunfarren ym mis Mehefin 1944 gan fyw yn Stryd Horeb Penydarren. Symudodd i stad Penybryn am tua 4 mlynedd ble briododd Anne yn 1972. Allan oedd y brawd mawr i Grenville, Rheolwr Adran Gynllunio ac Argraffu'r Cyngor a'i ddiweddar chwaer Linda.

Mynychodd Ysgol Ramadeg y Sir, cyn dechrau gyrfa mewn Llywodraeth Leol gyda Chyngor Merthyr yn 1961. Bu'n gweithio mewn Llywodraeth Leol am 34 mlynedd. Bu'n Gynorthwydd Addysgu yn y Ganolfan Gyfeirio Disgyblion am 7 mlynedd cyn ei ethol yn Gyngorydd.

Mae Allan wedi bod yn briod gydag Anne ers 34 mlynedd, a ymddeolodd hi fel Prif Ariannydd banc Barclays, Lloyds a TSB. Mae ganddynt ddau o blant Rhian a Rhodri; Mae Rhian yn gyfreithwraig yn byw yng Nghaerdydd ac yn briod gyda Gareth ac maent yn rhieni i ferch o'r enw Ffion a aned ym mis Medi 2007. Mae Rhodri sydd hefyd yn byw yng Nghaerdydd yn gweithio i Lywodraeth Cymru.

Ysbryd cymunedol cryf Allan wnaeth iddo sefyll fel Cyngorydd yn 2002/

Yn ogystal â bod yn Ddiacon uchel ei barch yn Eglwys Horeb, cariad mawr arall Allan yw Pêl Droed. Yn ei blentyndod roedd e a'i frawd Grenville yn chwarae i glwb Amaturiaid Horeb a bu'n ysgrifennydd y clwb am 17 mlynedd. Am y 24 mlynedd diwethaf mae Allan wedi bod yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cynghrais Bel Droed Merthyr a gwirfoddolwr a chefnogwr selog o dîm Pêl droed Merthyr. Mae llais Allan i'w glywed yn aml dros system sain gemau cartref y clwb ym Mharc Penydarren.

Cydnabuwyd cyfraniad Allan i bêl droed pan ddyfarnwyd medal hir wasanaeth y Gymdeithas Bel droed iddo am ei wasanaeth o dros 40 mlynedd i bêl droed.

Mae yn gyn Cadeirydd Cymdeithas Bel droed De Cymru ac yn aelod o Gyngor y Gymdeithas.

Apêl Allan oedd ar gyfer Sganiwr Uwchsain ar gyfer Ysbyty Tywysog Siarl a llwyddodd i dalu a chyflwyno'r sganiwr i'r Ysbyty ar Fai 20fed 2007. Mae'r arian ychwanegol a godwyd wedi ei ddefnyddio ar gyfer uned Ffototherapi a stiliwr yn ogystal ag offer hanfodol arall.

Trwy ymdrech a gwaith caled Allan , mae wedi llwyddo codi dros £49,000 at yr apêl ac mae e ag Anne yn ddiolchgar iawn i bobl Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am eu cymorth wrth godi'r swm anhygoel hwn o arian.